

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 17 Ionawr 2019 am 1830

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Mair Jones

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Mair Jones.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith.

Cydymdeimlwn gyda Cyng. Angharad Williams ar eu profedigaeth diweddar.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2018.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.1 Llwybr beics pentref Llandygai – Cyngor Gwynedd wedi ymateb. Y Clerc i ofyn iddynt ail-linellu'r llwybr.

3.2 Tynal Tywyll-y goleuadau/lampau wedi gael ei newid, ond dim offer diogelu o'i cwmpas fel a'r addawyd. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd.

3.3 Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor - y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Problem hefyd yn Erw Faen.

3.4 Wal wedi ei malu ar Ffordd Tan Rhiw yn dilyn damwain car. Gwaith blêr o'i roi yn ôl at ei gilydd. Dim ymateb hyd yn hyn gan Gyngor Gwynedd.

3.5 Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y dwnnel. Y Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, ond heb gael ymateb.

3.6 Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – dim angen cais cynllunio ar gyfer gosod y lloches. Yn dilyn danfon llythyrau i cartrefi cyfagos, wedi derbyn sel bendith eu bod yn hapus i'r lloches gael ei leoli yno. Y Clerc i wneud ymholiadau prisiau ac ymateb i Cyngor Gwynedd.

3.7 Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt
Tan y Bwlch – golau yn diffodd am 9.30yh
Llwybr Main – golau ddim yn gweithio

Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ‘Ildiwch’ yn fflachio. Y Clerc i gael diweddariad.

3.8 Problemau gor-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig. Y ffordd rhwng Llwybr Main a Tan y Bwlch yn cael ei ddefnyddio fel trac rasio. Angen cynigion i arafu'r traffig. Y Cyng. Richard Fraser-Williams wedi sôn yn cyfarfod y llywodraethwyr am y syniad o'r plant i wneud poster i'w gosod ar y ffordd, yr aelodau yn hoff o'r syniad. Y Clerc wedi holi yr heddlu unwaith eto, dim ymateb hyd yn hyn. Penderfynwyd gwahodd Dafydd Wyn Williams o Gyngor Gwynedd i gyfarfod mis Mawrth. Holl aelodau i gynnig pynciau trafodaeth erbyn cyfarfod mis Chwefror.

3.9 Arwydd Llandygai – mae'r arwydd bellach wedi gael ei gosod.

3.10 Hysbysfwrdd Llandygai – wedi cael pris am un newydd metel. Penderfynwyd bydd y Clerc yn ei archebu.

3.11 Diffibriliwr – y Clerc wedi archebu defib ar gyfer Tregarth. Y Clerc i wneud ymholiadau ynglyn a gael caniatad i rhoi un ar Neuadd Talgai, y Cyng. Mair Leverett i darparu manylion cyswllt.

3.12 Llwybr o Parc fyny at Lôn y Grug – angen sylw. Y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu hefo'r contractwr.

3.13 Lôn Hermon a Lôn y Grug – baw ci dal yn broblem yno. Y Clerc wedi cysylltu gyda Gyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

3.14 Adroddodd Cyng. Iwan Hywel fod y Clwb Ieuenctid Mynydd Llandygai yn ffynu - camoliaeth i trefnwyr a gwirfoddolwyr y clwb.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2019'

Cyflwynwyd: llythyr gan Ieuan Wyn, Cylch yr Iaith ynglyn a ail-strwythuro'r canolfannau iaith. Penderfynwyd bod y Cyngor yn gefnogol o gynnwys y ddogfen a'r argymhellion ac am anfon llythyr at Garem Jackson, gyda chopiau at Cyng. Gareth Thomas a Cyng. Dyfrig Siencyn.

Cyflwynwyd: Ymglynghoriad ar Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd – gan Gwasnaethau Tai, Cyngor Gwynedd – pawb i ymateb fel unigolyn.

Cyflwynwyd: Ymglynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol – gan Rheolwr Uned Cynllunio – pawb i ymateb fel unigolyn.

Cyflwynwyd: ebost gan Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon – Eisteddfod 2021 – y Clerc i danfon llythyr cefnogaeth.

Cyflwynwyd: ebost gan Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd ynglyn a Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru. Y Clerc i danfon gwahoddiad.

5. Gwaith y mis

5.1 Adroddwyd Cyng. Richard Fraser-Williams ei fod wedi derbyn cwynion gan sawl unigolyn am y Rali a gafwyd ei gynnal ar 8 Rhagfyr 2018. Mae trigolion Mynydd Llandygai yn croesawu ac yn gefnogol iawn o'r rali, ond yn anffodus roedd cyflymder y ceir wedi cynyddu y tro yma, ac yn beryg iawn mewn ardal 30 mya. Y Clerc i danfon llythyr at Clwb Moduron Môn ac Arfon ac at Gyngor Gwynedd.

5.2 Binau Halen – Noder fod llawer o binau halen heb gael ei llenwi yn ardal Mynydd Llandygai a Phentir. Y Clerc i cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

5.3 Lon Las Ogwen – dim canllaw am 10 metr rhwng Moelyci a Felin Hen. Y Clerc i cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

5.4 Cysgodfan Bws Sling – graffiti anwedus – y Clerc i wneud ymholiadau.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – yn dilyn cyfarfod, noder Cyng. Dafydd Owen fod yr ystafell gyfarfod yn yr Ganolfan wedi gael ei phaentio. Heb dderbyn ymateb i'r ffens sydd wedi disgyn yn y Maes Parcio. Cyng. Dafydd Owen i wneud ymholiadau ynglyn a cael pwyntiau gwefru yn y maes parcio. Hefyd cadarnhawyd eu bod yn gweithio ar logo ac arwyddion newydd.

Ysgol Bodfeurig – Ymddiheuriadau gan Cyng. Richard Fraser-Williams ei fod methu mynychu'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Llandygai – Cyng. Mair Leverett wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf, dim materion i'w godi.

Neuadd Talgai – Cinio nadolig blynyddol wedi gael ei gynnal, ond adroddwyd nad oeddynt wedi gallu cynnal y bore coffi er mwyn codi arian oherwydd y tân yn Canolfan Cefnfaes, felly mae'r Neuadd nawr yn frin iawn o arian.

7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

7.1. Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Rhagfyr.

7.2. Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

8. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Llais Ogwan	£18.00
Ysgol Dyffryn Ogwen	£500.00
Swyddfa Archwilio	£301.05

9. Archeb 2019-20

Penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £21,408.

10. Sedd wag Ward Mynydd Llandygai

Dim diddordeb ar hyn o bryd, yr hysbyseb yn cael ei adnewyddu bob tair wythnos.

11. Penderfyniadau Cynllunio

C18/0123/16/TC

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling
Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel
annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/10C

Fferm Pentre, Nant Ffrancon
Pâr o feudai-newid defnydd tir i
gynnwys 5 lle parcio, cadw
deunyddiau, gwaith peirianyddol a
tirlunio.

Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda
Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0170/16/LL

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le

Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C18/0169/16/CR

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth
Dymchwel estyniad unllawr presennol
(ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei
le

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0736/16/LL

Fferm Dinas Caravan Park, Tregarth
Estyniadau a newidiadau ynghyd ag
ail-wampio cyffredinol a gwaith
adnewyddu i floc toiledau presennol

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd.

C18/0746/16/LL

Vestry, Llys Owen, Tregarth
Dymchwel yr adeilad presennol a
chodi uned breswyl fasnachol agored
ac uned breswyl fforddiadwy newydd
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.
Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0848/16/LL

17 Llwybrmain, Mynydd Llandygai
Estyniad cefn i'r annedd
Penderfyniad: Gwrthodwyd

C18/0836/16/CR

The Oldest Port Office, Porth Penrhyn,
Bangor
Addasiadau mewnol i'r adeilad
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C18/0767/25/LL

Coed Wern Tŷ Gwyn – Glasinfryn
Lleoli 40 uned llety gwyliau
Penderfyniad: Dim penderfyniad hyd
yn hyn.

C18/0960/16/LL

Capel Chwarel Goch, Tregarth
Codi rhodfa dihangfa dân i gysylltu a
grisiau i'r ddaear.
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C18/1026/16/LL

Pen y Llyn, Mynydd Llandygai
Creu menage at ddefnydd personol
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

12. Ceisiadau Cynllunio

C18/1142/16/TP

Coedlan i'r gogledd o Pentwmpath, Llandygai
Creu gorchymyn diogelu coed
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C18/0002/16/LL

28 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Dymchwel rhan o estyniad to fflat presennol
o chodi estyniad gromen cefn ynghyd a
newidiadau mewnol

Penderfyniad: Cefnogi

C18/1204/16/LL

17 Llwybr Main, Mynydd Llandygai
Estyniad cefn i annedd (cynllun diwydiedig)

Penderfyniad: Cefnogi

13. Unrhyw fater brys arall

Dim